| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 18 Chwefror 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Awdur yr adroddiad** | Prif Gyfrifydd (Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| **Testun** | Adroddiad Cyllid (Ionawr 2024/25) |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn manylu ynghylch cyllideb refeniw'r Cyngor a'r arbedion a gytunwyd ar gyfer 2024/25.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor ac yn cadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2024/25.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2024/25 a'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo neilltuo £3.956 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, fel y nodir yn 4.4.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £271.021 miliwn (£250.793 miliwn yn 23/24) fel y gwelir yn Atodiad 1. Rhagwelir y bydd tanwariant o £4.559 miliwn (tanwariant o £3.924 miliwn fis diwethaf) ar gyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae'r newid o

£635,000 yn deillio o ryddhau cyllid o gronfeydd wrth gefn corfforaethol yn ogystal â gwasgfeydd yn lleddfu mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion wrth i wasgfeydd gynyddu ym maes Gwasanaethau Plant, Priffyrdd a Gwasanaethau Eiddo ac Asedau. Ceir ychwaneg o fanylion yn Adran 6 ac Atodiad 2.

4.2 Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25, bu'n ofynnol i'r Cyngor nodi arbedion ar wasanaethau ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £10.384 miliwn, a cheir crynodeb ohonynt isod:

- **Arbedion Mawr a Gynigir** – prosiectau i wneud arbedion swmpus (£2.388 miliwn)
- **Arbedion nad ydynt yn strategol** – dirprwyo cyfrifoldeb i Benaethiaid Gwasanaethau wneud arbedion effeithlonrwydd gweithredol gan ymgynghori ag Aelodau Arweiniol (£5.296 miliwn).
- Derbyniodd **Ysgolion** gyllid ar gyfer costau chwyddiant a gofynnwyd iddynt ddod o hyd i arbedion gwerth 3% (£2.7 miliwn). Y sefyllfa net oedd cynnydd o £4.916 miliwn (5.82%).

4.3 **Monitro Cyflawni'r Arbedion** – cedwir golwg ar y cynnydd a wneir wrth gyflawni'r arbedion a gymeradwywyd wrth bennu cyllideb 2024/25 a chyflwynir y sefyllfa fel yr oedd hi ar 31 Rhagfyr yn Atodiad 3. Oherwydd amseriad rhoi'r cynigion ar waith, ni fydd rhai ohonynt yn cyflawni arbediad blwyddyn lawn yn 2024/25 a chedwir golwg ar y gwasgfeydd hynny yn ystod y flwyddyn wrth fonitro cyllideb y gwasanaeth.

4.4 **Refeniw o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** – mae'r Cyngor wedi derbyn grant o £3.956 miliwn gan Lywodraeth Cymru i dalu costau cyflogau a gyfyd yn ystod y flwyddyn a chost y cynnydd mewn cyfraniadau i bensiynau Athrawon a'r Gwasanaeth Tân. Gan fod y costau hynny'n cyfrif at y gwasgfeydd wrth bennu cyllideb 2024/25, cynigir neilltuo'r swm a dderbyniwyd mewn cronfeydd wrth gefn fel hyn:

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd: Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Tywydd Garw** – £500,000 – gwariwyd yr hyn oedd yn y gronfa wrth gefn y llynedd. Wrth i dywydd eithafol ddod yn fwy cyffredin, mae'n ddoeth cael cronfa wrth gefn i dalu'r costau ychwanegol a gyfyd.

**Corfforaethol: Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Trawsnewid** – £750,000 – wedi'i glustnodi fel arian sefydlu ar gyfer prosiectau trawsnewid, gan chwyddo'r gronfa drawsnewid i £1.040 miliwn.

**Corfforaethol: Cronfa Wrth Gefn i Liniaru ar Beidio â Chyflawni'r Gyllideb** – £2.706 miliwn – cronfa wrth gefn a glustnodwyd ar gyfer lliniaru ar effaith unrhyw orwariant yn ystod y flwyddyn neu fethu â chyflawni'r arbedion a gynlluniwyd yn llawn neu o gwbl. Bydd hynny'n creu cyfanswm o £6.748 miliwn yn y gronfa i liniaru ar wasgfeydd ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae cyllideb 2024/25 yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae Atodiad 2 yn manylu ynghylch gwasgfeydd mewn gwahanol wasanaethau a risgiau gorwario a thanwario, ond dylid nodi'r materion canlynol hefyd:

6.1 **Addysg a Gwasanaethau Plant** – y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o £2.319 miliwn (£2.063 miliwn o'r blaen). Mae'r gwasgfeydd ar Ofal Cymdeithasol i Blant (£2.048 miliwn) wedi cynyddu £417,000 y mis hwn gan y bu costau lleoliadau'n fwy na'r disgwyl, gan gynnwys sefydlu un lleoliad newydd. Mae'r gorwariant yn y gwasanaethau Addysg (£271,000) yn deillio o wasgfeydd ar ddarpariaethau dysgu ychwanegol a phecynnau addysg y tu allan i'r sir, ac fe ostyngodd £161,000 y mis hwn yn sgil derbyn arian grant.

6.2 **Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd –** y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw gorwariant o £1.564 miliwn (£1.124 miliwn o'r blaen). Mae'r gorwariant a'r gyllideb a'r newid o £440,000 y mis hwn yn deillio o wasgfeydd ar y gwasanaeth gwastraff (£1.2 miliwn) a chynnal a chadw yn y gaeaf (£691,000) ac fe gynyddodd y costau yn y naill faes a'r llall y mis hwn, er bod arbedion cyffredinol yn y gwasanaeth wedi lliniaru ar hynny (-£325,000). Erys risg uchel i'r gwasanaeth hwn dros y gaeaf.

6.3 **Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad -** amcanestyniad y gyllideb yw gorwariant o £627,000 (£680,000 o'r blaen) oherwydd diffyg incwm o feysydd parcio (£184,000, sydd ychydig yn well wedi gostwng £53,000 y mis hwn), cynnydd yng nghostau contractau cludiant ysgol (£431,000) a gwasgfeydd cyffredinol ar y gwasanaeth (£12,000).

6.3 **Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd** – y sefyllfa derfynol a ragwelir ar hyn o bryd yw tanwariant o £1.086 miliwn (tanwariant o £800,000 o'r blaen). Ceir tanwariant ym maes Digartrefedd (-£1.3 miliwn) (£14,000 yn llai'r mis hwn) gan na fu cynifer o leoliadau brys mewn llety dros dro. Mae'r gwasgfeydd mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion (£200,000) yn deillio o gostau lleoliadau a'r galw ar y gwasanaethau, a gostyngodd hynny £300,000 y mis hwn yn sgil derbyn grant a dal i wneud cynnydd wrth weithredu'r cynigion ar gyfer arbedion.

6.4 **Cyllidebau Corfforaethol** – rhagwelir tanwariant o £8.224 miliwn (£7.128 miliwn y mis diwethaf). Mae'r newid y mis hwn (£1.096 miliwn) yn bennaf yn ymwneud â chyflogau; mae cyllid a gedwir yn ganolog ar gyfer dyfarniadau cyflog bellach wedi'i drosglwyddo i wasanaethau gyda thanwariant wedi'i ddatgan y mis hwn. Mae'r tanwariant cyffredinol yn deillio o dderbyn grant gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn (£3.956 miliwn) a rhyddhau arian o gyllidebau at raid (£4.268 miliwn); cynigir neilltuo'r grant a dderbyniwyd mewn cronfeydd wrth gefn, fel y nodir yn 4.4.

6.5**Ysgolion** – roedd y gyllideb a gymeradwyodd y Cyngor ar gyfer 2024/25 yn cynnwys cyfanswm buddsoddiad ychwanegol net o £4.9 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion (heb gynnwys cynnydd mewn grantiau Llywodraeth Cymru). Mae balansau ysgolion a gariwyd ymlaen i 2024/25 yn £3.681 miliwn, sy'n isel o gymharu â blynyddoedd diweddar. Mae ysgolion yn rhagweld y bydd eu balansau'n gostwng £5.782 miliwn gan greu diffyg net o £2.101 miliwn i'w gario ymlaen i 2025/26.

6.6 **Y Cyfrif Refeniw Tai** Rhagwelir y bydd balansau refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai a gariwyd ymlaen i 2024/25, sef £1.180 miliwn, yn £840,000 erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n ostyngiad o £340,000. Mae hynny'n deillio o dderbyn llai o incwm rhent. Dyrennir cyllideb gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai o £16 miliwn yn bennaf rhwng gwelliannau wedi'u cynllunio i'r stoc dai bresennol (£10 miliwn) a chaffaeliadau a datblygiadau tai newydd (£6 miliwn).

6.7 **Rheoli'r Trysorlys** – ddiwedd mis Ionawr, cyfanswm benthyciadau'r Cyngor oedd £308.408 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 4.49%. Balans y buddsoddiadau oedd £29.2 miliwn ar gyfradd llog gyfartalog o 4.64%.

6.8 Ceir crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn Atodiad 4. Cymeradwywyd Cynllun Cyfalaf gwerth £84.8 miliwn a gwariwyd £40.2 miliwn hyd yn hyn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cyflwynwyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr holl gamau i ostwng y gyllideb ac effaith cynyddu Treth y Cyngor i'r Cyngor ar 30 Ionawr.

## 8. Pa ymgyngoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, trafodwyd proses y gyllideb gan y Tîm Arwain Strategol, yng nghyfarfodydd Briffio'r Cabinet, gan Arweinwyr Grŵp ac yng nghyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol hefyd wedi'i gynnwys mewn trafodaethau ynghylch y cynigion gydol y flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae'r Cyngor, fel pob Cyngor arall yng Nghymru, yn wynebu heriau ariannol digynsail yn y tymor canolig. Bu'r risg oherwydd gwasgfeydd ar y gwasanaeth gwastraff a chynnal a chadw yn y gaeaf yn hysbys gydol y flwyddyn ac mae hynny'n dal yn risg y gaeaf hwn. Mae meysydd risg uchel eraill yn cynnwys newid lleoliadau preswyl mewn Gwasanaethau Plant a lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Gan ein bod wedi cynnwys costau pensiynau Athrawon a dyfarniad cyflog y Cydgyngor Cenedlaethol yn y gwasgfeydd wrth bennu cyllideb 2024/25m bydd y grant gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i ddigwyddiadau ariannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ategu ein cronfeydd wrth gefn ac yn helpu i hybu gwytnwch ariannol y Cyngor yn y tymor canolig. Caiff y gwasgfeydd a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig eu hadolygu'n barhaus. Mae'r gwasgfeydd ar wasanaethau'n dal yn peri pryder a bydd angen cadw golwg fanwl arnynt gan y disgwylir y daw risgiau a gwasgfeydd pellach yn y misoedd i ddod.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Wynebodd y Cyngor her ariannol sylweddol wrth osod ei gyllideb ar gyfer 2024/25 gan nad oedd ein cyllid yn cynyddu digon i fedru ymdopi â gwasgfeydd parhaus oherwydd chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymhlethdod yr angen amdanynt. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn sail ar gyfer y modd yr awn ati i reoli'r risgiau hyn.

10.2 Mae risgiau o ran gallu’r tîm Cyllid i gyflawni oherwydd datblygiad parhaus y system ariannol newydd, a roddwyd ar waith ym mis Ebrill, gyda rhywfaint o swyddi gwag yn y gwasanaeth.  Ceir rhywfaint o aflonyddwch wrth gyflwyno unrhyw system newydd a bu’n rhaid i dimau ganfod ffyrdd o ddatrys y problemau hynny. Er mwyn lliniaru ar y risg, mae’r tîm cyllid yn canolbwyntio ar feysydd risg uchel er mwyn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Cabinet ynglŷn â meysydd lle mae risg sylweddol o orwariant.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.